# Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 27 Ebrill 2023 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A S Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Prif Arolygydd Declan Cahill, Heddlu De Cymru
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Craig Flannery, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Helen Grey, Cyfoeth Naturiol Cymru
Yr Athro Chris Jones, Llywodraeth Cymru
Bailie Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Keith Lloyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Deanne Martin, Carchar a Gwasanaeth Prawf EF
Jenny McConnell, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol
Jeremy Parkhouse, Cyngor Abertawe
Keith Reid, Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Amy Richmond-Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gwynfor Thomas, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai
Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Ness Young, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Karen Stapleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Rob Stewart, Cyngor Abertawe
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Emma Woollett, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## 50 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 51 Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid llofnodi a chymeradwyo cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023 fel cofnod cywir.

## 52 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Dim.

## 53 Cyflwyniadau - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyflwynodd Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ei hun i'r Pwyllgor, gan amlinellu ei gefndir, y cynnydd y mae wedi'i wneud ers ei benodiad, gofynion y rôl a sut yr oedd yn bwriadu canolbwyntio ar ganlyniadau.

Pwysleisiodd themâu cyffredin o fewn cyrff cyhoeddus, gan rannu arfer da, sicrhau bod gan y BGC ddulliau/fframweithiau cyson, cydweithredu effeithiol, dysgu ar y cyd a chanolbwyntio'n ddyfnach ar lai o faterion.

Nododd y byddai'n cyhoeddi ei gynlluniau ym mis Hydref 2023.

Croesawodd y Pwyllgor yr her i'r sector cyhoeddus, eiriolaeth ac elfennau hwylusydd y rôl. Amlygwyd cysondeb y BGC hefyd a dywedodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod o Gadeiryddion y BGC yn ddatblygiad buddiol.

Diolchodd y Cadeirydd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am fynychu'r cyfarfod.

## 54 Cynllun Lles Lleol ar gyfer Cymeradwyaeth Terfynol.

Cyflwynodd Ness Young, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol, Gynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2023-2028 i'w gymeradwyo.

Amlygodd fod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan yr holl bartneriaid statudol ac y byddai'n cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y mis.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2023-2028.

## 55 Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC) Cynllun Gweithredu 2023-2024.

Darparodd Ness Young adroddiad a roddodd ddiweddariad i'r BGC ar ddatblygiad cynllun gweithredu 2023-24 a chynigiodd y camau nesaf.

Amlygodd Ness yr 8 cam a nodwyd a'r unigolion a oedd wedi gwirfoddoli i weithredu fel Arweinwyr Strategol ar gyfer pob un ohonynt. Darparodd Atodiad A y camau gweithredu a ddatblygwyd fel drafftiau cychwynnol gan yr Arweinwyr Strategol mewn ymgynghoriad â phartneriaid statudol y BGC. Roedd y camau gweithredu'n ceisio adlewyrchu cynnwys y Cynllun Lles a'r asesiad a oedd yn sail iddo.

Cynigiwyd y byddai Arweinwyr Strategol yn ymgysylltu ag aelodaeth ehangach y BGC i barhau i weithio ar y camau gweithredu.

Cynigiwyd hefyd bod Swyddogion Arweiniol Strategol yn cyfarfod i sicrhau bod y camau gweithredu'n cyd-fynd a sicrhau bod y cysylltiadau rhyngddynt yn cael eu mwyafu. Yn amodol ar gytundeb y BGC, byddai'r Swyddogion Arweiniol Strategol yn

anelu at gwblhau'r Cynllun Gweithredu erbyn diwedd mis Mai er mwyn sicrhau y gellir dechrau ei weithredu o fewn chwarter cyntaf 2023-24.

Nodwyd y cynigiwyd bod Arweinwyr Strategol yn adrodd am gynnydd ar eu camau yn ystod pob cyfarfod ffurfiol o'r BGC, unwaith y bydd y Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau. Byddai trefniadau rheoli perfformiad manwl pellach yn cael eu datblygu o dan Gam 8 ac fe'u cyflwynir i'r BGC yn hwyrach yn y flwyddyn.

Cyflwynir amserlen a phroses arfaethedig ar gyfer datblygu camau gweithredu ar gyfer 2024-25 a thu hwnt i'r BGC yn ystod cyfarfod y trydydd chwarter yn 2023-24.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar y cynigion a phwysleisiwyd yr angen i osgoi dyblygu/unrhyw fylchau.

**Penderfynwyd:-**

1) Nodi'r sylwadau ar ddrafft cynllun gweithredu 2023-24 yn Atodiad A.

2) Dylai Arweinwyr Strategol ymgysylltu â holl gyfranogwyr y BGC ac aelodau'r Fforwm Partneriaeth a wahoddir i weithio gyda nhw er mwyn cwblhau'r cynllun erbyn diwedd mis Mai 2023.

3) Cytuno ar adroddiad diweddaru ar y cynllun gweithredu fel eitem sefydlog mewn cyfarfodydd y BGC yn y dyfodol.

## 56 Amlder y Cyfarfodydd/Cylch Gorchwyl.

Rhoddodd Ness Young ddiweddariad llafar ynghylch amlder cyfarfodydd a'r cylch gorchwyl.

Ychwanegodd fod angen adolygiad o'r cylch gorchwyl. Nodwyd y cynhelir cyfarfodydd yn y dyfodol yn chwarterol a thynnwyd sylw at yr angen i gynnal cyfarfodydd anffurfiol. Trafodwyd diwygio'r teitl hefyd, yn enwedig gwaredu ar yr enw 'Cyd-bwyllgor'.

**Penderfynwyd:-**

1) Cynnal cyfarfodydd chwarterol yn y dyfodol.
2) Cynnal cyfarfodydd anffurfiol rhwng cyfarfodydd chwarterol.
3) Newid y teitl i 'Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe'.

## 57 Fforwm Partneriaeth.

Diweddarwyd y pwyllgor ar y canlynol: -

- Strategaeth Iechyd y Boblogaeth

Rhoddodd Keith Reid, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd yr wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Iechyd y Boblogaeth (PHS), a gymeradwywyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 31 Mawrth 2023.

Amlinellodd y gwahaniaethau y byddai'r Strategaeth yn eu gwneud i waith y Bwrdd Iechyd, yn enwedig wrth ddangos ymrwymiad clir gan y Bwrdd i dargedu Egwyddorion Marmot. Amlygodd y 4 piler a nodwyd gan y Bwrdd i gefnogi'r PHS fel a ganlyn: -

1) Darparu cynnig clinigol a buddion iechyd y boblogaeth.
2) Gweithlu.
3) Ymddygiad fel endid corfforedig.
4) Ymddygiad o fewn partneriaethau.

Ychwanegodd bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio i ddatblygu'r Strategaeth, gan ganolbwyntio ar yr hyn y gall ei wneud i'w boblogaeth a sut y gall weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

- Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhannwyd y ddolen ar gyfer Cynllun Corfforaethol CNC, a oedd wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar gan y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r sefydliadau am eu diweddariadau.

**58 Rhaglen Waith y Dyfodol:**

Darparwyd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol er gwybodaeth.

**59 Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol:**

Darparwyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.00 pm

**Cadeirydd**